



Cytundeb Darparwr Cynnig Gofal Plant 2022-2023

1.1 Enw'r lleoliad:

1.2 Manylion cyswllt yr Awdurdod Gweithredu:

Carfan Cynnig Gofal Plant
Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT)
Tŷ Trevithick
Abercynon
CF45 4UQ

Ffôn: 01443 570048

E-bost: DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk

1.3 Cyfnod Cyllido:

- 1.3.1 Mae'r cytundeb yma'n ddilys ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022-2023.
- 1.3.2 Mae'r cytundeb hwn ond yn berthnasol i blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig cyn 31 Rhagfyr 2022. Dylech ddefnyddio porth presennol RhCT i hawlio cyllid ar gyfer y plant yma hyd nes dydyn nhw ddim yn gwymwys mwyach (erbyn diwedd Awst 2023).
- 1.3.3 Bydd ceisiadau am gyllid ar gyfer pob plentyn sy'n gymwys o 1 Ionawr 2023 yn cael eu cymeradwyo drwy system genedlaethol newydd Llywodraeth Cymru. Bydd angen i chi lofnodi cytundeb ar wahân ar gyfer hyn. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu ym mis Medi 2022.

1.4 Gwasanaeth fydd yn cael ei ddarparu:

- 1.4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig hyd at 30 awr o ofal plant wedi'i gyfuno â darpariaeth Meithrin Cyfnod Sylfaen am hyd at 48 wythnos y flwyddyn (*y Cynnig Gofal Plant*) i rieni sy'n gweithio ac angen gofal ar gyfer eu plant tair a phedair oed.
- 1.4.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Awdurdod Gweithredu a bydd yn prosesu ceisiadau darparwyr am gyllid er mwyn darparu'r cynnig i blant RhCT ac i'r rhai sy'n darparu'r cynnig i blant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Awdurdodau Ymgysylltu).
- 1.4.3 Bydd y **Cynnig Gofal Plant** yn cynnwys:

Tymor yr ysgol yn unig

- **10-15 awr** yr wythnos o ddarpariaeth addysg Meithrin Cyfnod Sylfaen (yn ddibynol ar beth mae pob Awdurdod Lleol yn cynnig) - 39 wythnos y flwyddyn;
- **Gofal plant ychwanegol wedi'i ariannu** (i wneud cyfanswm darpariaeth o 30 awr yr wythnos) - 39 wythnos y flwyddyn.
- **Nodwch** os yw plentyn yn derbyn addysg Meithrin Cyfnod Sylfaen llawn amser, fydd e ddim yn gymwys i dderbyn gofal plant ychwanegol wedi'i ariannu yn ystod y tymor.

Gwyliau Ysgol

- **30 awr** yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu am hyd at 9 wythnos o wyliau ysgol y flwyddyn.
- **Mae hyn yn gadael 4 wythnos y flwyddyn heb unrhyw ddarpariaeth wedi'i hariannu.**
- Mae'r hawl gwyliau yn cael ei ddyrannu fel 3 wythnos ar gyfer pob tymor y mae eich plentyn wedi'i gadarnhau yn gymwys.
- Mae modd cario hawl gwyliau sydd heb ei ddefnyddio drosodd i'r flwyddyn academaidd nesaf os yw'r plentyn yn parhau i fod yn gymwys i gael y Cynnig.

1.4.4 Mae rhaid i ddarparwyr gofal plant gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant a bod yn gymwys i hawlio cyllid.

1.5 Sut y bydd hyn yn cydfynd â'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ac yn ychwanegu gwerth atyn nhw?

1.5.1 Bydd y gwasanaeth yma'n cynorthwyo'r Awdurdod Gweithredu a'r Ymgysylltu i fodloni eu rhwymedigaethau i Lywodraeth Cymru i weithredu'r Cynnig Gofal Plant.

1.5.2 Bydd y Cynnig Gofal Plant yn ategu'r ddarpariaeth addysg Meithrin Cyfnod Sylfaen gyfredol trwy ddarparu gofal plant ychwanegol wedi'i ariannu i blant cymwys o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed tan y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed (pan fydd y plentyn yn cyrraedd yr oedran dechrau ysgol statudol).

1.6 Talu:

1.6.1 Bydd darparwyr yn cael eu talu i ddarparu'r gofal plant a ariennir ymlaen llaw ar gyfer pob plentyn ar gyfradd o **£5.00 yr awr**, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi'i phennu. Mae hyn ar yr amod bod y dogfennau perthnasol wedi'u cyflwyno. Mae modd i Lywodraeth Cymru adolygu'r gyfradd o bryd i'w gilydd, a bydd darparwyr yn cael gwybod am newidiadau i'r gyfradd fesul awr ar y dyddiad y bydd yn cael ei chadarnhau gan Lywodraeth Cymru.

1.6.2 Does gan ddarparwyr ddim hawl i godi rhagor o arian yr awr os ydyn nhw fel arfer yn codi dros £4.50 yr awr, ond mae hawl ganddyn nhw i godi eu cyfradd arferol am oriau ychwanegol.

1.6.3 Mae modd i ddarparwyr godi ffioedd ychwanegol i rieni am fyrbrydau a bwyd y maen nhw'n eu darparu. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylid codi mwy na £9.00 y dydd am fwyd am sesiwn diwrnod llawn (tua 10 awr). Byddai hyn yn cynnwys 3 phryd am £2.50 y pryd a 2 byrbryd am 75c yr un. Am sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr), ni ddylid codi mwy na £5.75 ar rieni. Byddai hyn yn cynnwys 2 bryd am £2.50 y pryd ac 1 byrbryd am 75c. Am ofal sesiynol sydd ddim yn cynnwys pryd o fwyd, ond mae plentyn yn derbyn byrbryd, ddylai rhieni ddim gorfod talu mwy na 75c y dydd am fyrbryd.

1.6.4 Mae modd i ddarparwyr godi tâl am weithgareddau a thrafnidiaeth, megis tripiâu oddi ar y safle sy'n golygu cost ychwanegol a/neu godi/gollwng i'r/o'r ysgol.

1.6.5 Bydd yr arian yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r darparwr gofal plant. Bydd unrhyw oriau sy'n ychwanegol at y rhai sy'n cael eu hariannu gan y Cynnig Gofal Plant yn drefniant preifat rhwng y darparwr gofal plant a'r rhiant/cynhaliwr.

1.7 Meini Prawf Cymhwysedd Defnyddwyr Gwasanaeth:

1.7.1 Mae plant yn gymwys o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed tan y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

1.7.2 Rhaid i bob rhiant, gwarcheidwaid, llys-rieni neu gyplau tymor hir sy'n cyd-fyw yn y cartref weithio o leiaf 16 awr yr wythnos am Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu Gyflog Byw Cenedlaethol neu ragor. Trothwy'r incwm uchaf yw £100,000 y rhiant y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys rhieni sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig.

1.7.3 Mae rhieni mewn addysg neu hyfforddiant hefyd yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig. I fod yn gymwys, rhaid i rieni:

- Bod wedi'u cofrestru ar gwrs israddedig neu ôl-raddedig (gan gynnwys y cyrsiau hynny sy'n cael eu cynnal o bell neu ar-lein) sydd o leiaf 10 wythnos o hyd
- Bod wedi'u cofrestru ar gwrs mewn Sefydliad Addysg Bellach sydd o leiaf 10 wythnos o hyd
- Bod wedi'u derbyn i astudio cwrs llawn amser neu ran amser wedi'i ariannu gan y GIG sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, e.e. nyrs dan hyfforddiant

1.7.4 Mae modd i ddarparwyr wneud cais am gyllid drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer plant sy'n byw yn ardaloedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

1.7.5 Ar gyfer plant sy'n byw mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, rhaid i ddarparwyr gysylltu â'r ALI perthnasol i gael gwybodaeth ar sut i hawlio cyllid Cynnig Gofal Plant.

1.7.6 Bydd gan rieni/cynhalwyr sy'n dod yn anghymwys oherwydd newid mewn amgylchiadau hawl i gyfnod eithrio dros dro wyth wythnos lle bydd gofal plant yn parhau i gael ei ariannu. Os dydy'r rhiant/cynhaliwr ddim yn dod yn gymwys unwaith eto yn y cyfnod yma, byddan nhw'n dod yn gyfrifol am dalu'r holl ffioedd am ofal plant wedi i'r cyfnod yma o wyth wythnos ddod i ben. Cyfrifoldeb y rhiant yw rhoi gwybod i GBSRhCT a'r darparwr am unrhyw newid yn ei amgylchiadau.

1.7.7 Mae'n bosibl y bydd cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Bydd hyn yn cael ei gytuno yn dilyn proses atgyfeirio ac asesu'r Awdurdodau Lleol perthnasol.

1.7.8 Fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim yn talu ffioedd cadw neu ffioedd eraill ond bydd modd i leoliadau godi tâl ar rieni/cynhalwyr os yw hynny'n rhan o'u termau a thelerau arferol. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i ddarparwyr sicrhau bod gan gyfranogwyr y Cynnig yr un amodau contract â'r rhieni nad ydyn nhw'n derbyn cymorth ariannol trwy'r Cynnig Gofal Plant.

2.1 Gofynion Cyffredinol:

Rhaid i leoliadau:

- 2.1.1 Cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru drwy'r amser.
- 2.1.2 Cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a bod â rhif Talu wrth Ennill (PAYE) dilys neu rif Cyfeirnod unigryw y Trethdalwr (UTR) hunangyflogedig.
- 2.1.3 Mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am Safonau Gofynnol Cenedlaethol a rhoi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith.
- 2.1.4 Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill sy'n ymwneud â gweithrediad diogel y gwasanaeth.
- 2.1.5 Sicrhau bod gan bob aelod o staff brofiad, cymwysterau a sgiliau addas.
- 2.1.6 Sicrhau bod yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus/Atebolrwydd Cyflogwyr dilys ar waith bob amser.
- 2.1.7 Cydymffurfio â rheoliadau Diogelu a chadw at y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- 2.1.8 Cydymffurfio â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET) a Deddf Cydraddoldeb 2010.
- 2.1.9 Peidio gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn ar sail hil, lliw, ethnigrwydd, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran nac unrhyw amgylchiadau eraill.
- 2.1.10 Sicrhau bod yr wybodaeth sydd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd am eu gwasanaeth yn gyfredol.

2.2 Rhwymedigaethau'r Lleoliad:

Mae gofyn i'r lleoliadau:

- 2.2.1 Darparu faint o ofal plant sydd wedi'i gytuno ar lythyr cadarnhad Cynnig Gofal Plant pob plentyn.
- 2.2.2 Cytuno i fonitro parhaus gan yr Awdurdod Lleol perthnasol a Llywodraeth Cymru.
- 2.2.3 Cyflwyno'r ceisiadau am gyllid gofynnol gan sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys.
- 2.2.4 Cadw at yr amserlen sydd wedi'i darparu ar gyfer cyflwyno hawliadau misol. Bydd CBSRhCT ond yn ôl-ddyddio hawliadau sydd o fewn un mis calendr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Rhaid i leoliadau sicrhau eu bod yn hawlio am bob plentyn cymwys o fewn yr amserlenni sydd wedi'u cyfleu'n glir iddyn nhw. Mae modd i fethu â gwneud hynny arwain at wrthod hawliadau hwyr. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen i leoliadau adennill y ffioedd gan y rhiant.

- 2.2.5 Cytuno i gyflwyno tystiolaeth o bresenoldeb i gefnogi hawliadau os oes angen.
- 2.2.6 Bod â threfniant cytundebol ar waith gyda'r rhiant/cynhaliwr am ddarparu gofal plant a gwasanaethau eraill (prydau/cludiant).
- 2.2.7 Sicrhau bod cynllunio ar waith ar gyfer anghenion a dewisiadau unigol.
- 2.2.8 Caniatáu i bersonél awdurdodedig o'r Awdurdodau Gweithredu/Ymgysylltu gael gafael ar ddogfennau, cofnodion a gweithdrefnau sy'n berthnasol i gyflwyno'r Cynnig Gofal Plant yn foddhaol os yw hynny'n angenrheidiol.

2.3 Cymhwyster ar gyfer Cyllid:

- 2.3.1 Dylai pob ymholiad gan rieni/cynhalwyr ynghylch cymhwyster gael eu cyfeirio at garfan Cynnig Gofal Plant yr Awdurdod Lleol perthnasol.
- 2.3.2 Dylai'r ffurflen hawlio fisol nodi nifer yr oriau/sesiynau sydd ar gael i blant cymwys yn glir.
- 2.3.3 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn craffu ar bob ffurflen hawlio a ffurflen gais gan rieni ar ran yr Awdurdodau Ymgysylltu.
- 2.3.4 Rhaid i'r lleoliadau roi gwybod i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf os bydd plentyn sydd wedi'i ariannu yn gadael y lleoliad.
- 2.3.5 Rhaid i leoliadau roi gwybod i'r garfan Awdurdod Lleol perthnasol os dydy plentyn ddim yn mynychu am gyfnod o 10 diwrnod gwaith neu ragor heb i'r rhieni/cynhalwyr roi rheswm dilys.
- 2.3.6 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am benderfynu faint o arian a gaiff ei roi i leoliadau os bydd cais newydd yn dod i law yn ystod tymor sydd wedi'i ariannu fel y mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n datgan.

2.4 Rhwymedigaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

Bydd y Cyngor yn gwneud y canlynol:

- 2.4.1 Ymdrin â cheisiadau am gyllid yn brydlon ac anelu at brosesu ceisiadau rhieni o fewn 10 diwrnod gwaith.
- 2.4.2 Ymdrin â hawliadau gan ddarparwyr yn brydlon ac anelu at brosesu taliadau i ddarparwyr o fewn 5 diwrnod gwaith.
- 2.4.3 Ymdrin ag unrhyw gwestiynau ariannol gan rieni a darparwyr ar ran yr Awdurdodau Ymgysylltu.
- 2.4.4 Gwirio eto o bryd i'w gilydd a yw rhieni sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant yn dal i fod yn gymwys. Os yw rhiant yn methu â chydymffurfio â gofynion yr ailwiriadau cymhwysedd, bydd CBSRhCT yn dod â chyllid Cynnig Gofal Plant y rhiant hwnnw i ben. Mewn achos o'r fath, bydd y darparwr yn cael gwybod am y penderfyniad 4 wythnos cyn dod â'r cyllid Cynnig Gofal Plant i ben.

2.4.5 Sicrhau bod darparwyr yn gwybod os bydd rhiant bellach yn anghymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a bod y rhiant yn dechrau Cyfnod Eithrio Dros Dro o 8 wythnos.

2.4.6 Coladu a chyflwyno data misol a thymhorol i Lywodraeth Cymru.

2.4.7 Cadw at brosesau diogelu data a chyfrinachedd.

2.4.8 Rhoi gwybod i'r darparwyr am yr holl newidiadau a datblygiadau i'r Cynnig Gofal Plant yn y dyfodol cyn gynted ag y bo modd.

2.5 Gofynion Ychwanegol:

2.5.1 Bydd lleoliadau yn rhoi gwybod i garfan yr Awdurdod Lleol perthnasol os ydyn nhw'n effro i newid yn amgylchiadau rhiant / gwarcheidwad sy'n effeithio ar eu cymhwysedd neu os yw'r rhiant / gwarcheidwad yn cael ei amau o wneud hawliad twyllodrus am gyllid Cynnig Gofal Plant.

2.6 Diogelu Data:

2.6.1 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn prosesu eich data at ddibenion gweinyddu a phrosesu eich cofrestrriad ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn unig. Bydd modd defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu gennych chi yn y ffyrdd yma:

- Er mwyn monitro ac adrodd ar nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant a nifer y bobl o wahanol grwpiau sy'n derbyn cymorth (er enghraifft, gwahanol oedrannau, rhywiau, a mathau o ethnigrwydd);
- Gan fudiadau ymchwil cymdeithasol sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, er mwyn gwneud ymchwil a/neu waith dadansoddi.
- Cysylltu data o'r ffurflen yma â ffynonellau data at bwrpas gwerthuso'r effaith y cafodd y Cynnig Gofal Plant ar yr unigolion sy'n cymryd rhan.
- Efallai y bydd CBSRhCT yn rhannu eich data ag awdurdodau lleol eraill.

2.6.2 Bydd y lleoliadau'n sicrhau bod yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel, ei thrin yn gyfrinachol a'i defnyddio at ddibenion y Cynnig Gofal Plant yn unig. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei ildio i'r Awdurdod Lleol perthnasol os yw'r lleoliad yn peidio â chymryd rhan yn y Cynnig Gofal Plant.

2.6.3 I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Cyngor yn trin eich data personol mewn perthynas â'r cytundeb yma, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd [yma](#)

2.7 Dadgofrestru:

2.7.1 Os bydd unrhyw leoliad yn methu â chydymffurfio â'r amodau sy'n cael eu nodi uchod yn gyson, yna bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cymryd camau i ddadgofrestru'r lleoliad fel darparwr Cynnig Gofal Plant.

Manylion y Darparwr Gofal Plant Cofrestredig

Enw'r Darparwr Gofal Plant	
Math o leoliad: <i>Cylch Meithrin/Cylch Chwarae, Meithrinfa Diwrnod Llawn Gwarchodwr Plant, Gofal Cofleidiol, Clwb ar ôl Ysgol neu Glwb Gwyliau Clwb Gwyliau</i>	
Cyfeiriad:	
Cod Post:	
Enw'r Person Cyswllt:	
Person Cofrestredig:	
E-bost:	
Rhif Ffôn:	
Ffôn Symudol	
Rhif cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru:	
Dyddiad yr Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru:	
Rhif Cyfeirnod Talu wrth Ennill neu Rif Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR):	
Prif Iaith y Lleoliad:	
Oriau Agor y Lleoliad:	
Faint o wythnosau'r flwyddyn ydych chi ar agor? Pryd ydych chi ar gau?	

Manylion Banc y Busnes

Enw'r Banc:	
Cyfeiriad y Banc:	

Enw'r Cyfrif Banc:	
Cod Didoli'r Banc: (6 rhif)	
Rhif y Cyfrif: (8 rhif)	
Rhif Cymdeithas Adeiladu: (os yw'n berthnasol)	

Datganiad:

- Rydw i/Rydyn ni wedi ystyried a deall cynnwys y cytundeb yma, ac rydw i/rydyn ni'n cytuno ar ei gynnwys. Rydw i/Rydyn ni'n deall byddai methu â chadw at holl ofynion y cytundeb yma'n gwneud ein lleoliad yn anghymwys ar gyfer cyllid Cynnig Gofal Plant pellach ar gyfer plant sy'n byw yn ardal Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful neu Ben-y-bont ar Ogwr.
- Os ydw i/Byddwn ni'n dewis peidio â darparu gofal plant trwy'r Cynnig Gofal Plant, byddaf i/byddwn ni'n rhoi gwybod i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (a'r Awdurdod Ymgysylltu perthnasol os yw'n berthnasol) ar unwaith, rhoi gwybod i'r rhieni a bod yn gyfrifol am ad-dalu unrhyw ordaliad o gyllid.
- Rydw i/Rydyn ni'n cytuno i gyflwyno'r cytundeb wedi'i lofnodi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
- Rydw i/Rydyn ni'n cytuno, os bydd unrhyw wybodaeth rydw i/rydyn ni'n ei roi yn ystod cyfnod y cytundeb yma'n ffug neu'n anghywir, yna bydd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl a bydd modd cymryd camau pellach i adennill unrhyw gostau.

Sicrhewch eich bod chi'n darparu dau lofnod isod:

Arweinydd y Lleoliad/Rheolwr/Gwarchodwr Plant	Llofnod: Dyddiad:
Aelod o Bwyllgor y Lleoliad / Person Cyfrifol (os yw'n wahanol i'r uchod)	Llofnod: Dyddiad:
At Ddefnydd Swyddfa RhCT yn Unig	
Prif Swyddog Cynllun Cynnig Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	Llofnod: Dyddiad: